OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 4

## Cyfrifon pensiwn

### PENNOD 6

### Cyfrif pensiwn ychwanegol

**Sefydlu cyfrif pensiwn ychwanegol**

**47.**—(1) Rhaid sefydlu cyfrif pensiwn ar gyfer pob aelod actif (P) sy'n gwneud dewisiad pensiwn ychwanegol.

(2) Os yw P yn aelod actif mewn perthynas â mwy nag un gyflogaeth gynllun, un cyfrif pensiwn ychwanegol yn unig sydd i'w agor.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn, gelwir cyfrif a sefydlwyd o dan baragraff (1) yn gyfrif pensiwn ychwanegol.

**Y cyfrif i bennu swm y pensiwn ychwanegol**

**48.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phob blwyddyn gynllun pan fo dewisiad pensiwn ychwanegol yn cael effaith.

(2) Rhaid i'r cyfrif pensiwn ychwanegol bennu, mewn perthynas ag unrhyw daliadau pensiwn ychwanegol a wnaed yn y flwyddyn gynllun dan sylw, swm y pensiwn ychwanegol a benderfynwyd gan y rheolwr cynllun o dan baragraff 11 neu o dan baragraff 14 o Atodlen 1 (taliadau ar gyfer pensiwn ychwanegol) sydd i'w credydu mewn cysylltiad â'r flwyddyn gynllun honno.

**Y cyfrif i bennu'r balans agoriadol a'r addasiad mynegai DPC**

**49.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phob blwyddyn gynllun pan fo cyfrif pensiwn ychwanegol ar agor, ac eithrio'r flwyddyn gynllun pan sefydlwyd y cyfrif.

(2) Rhaid i'r cyfrif bennu—

(a) y balans agoriadol o bensiwn ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gynllun a'r addasiad mynegai DPC ar gyfer y balans agoriadol hwnnw;

(b) os yw'n gymwys, yr ychwanegiad oedran a ddyfarnwyd ar ddechrau'r flwyddyn gynllun.

(3) Ystyr "balans agoriadol" ("*opening balance*") o bensiwn ychwanegol yw—

(a) yn achos y flwyddyn gynllun sy'n dilyn yn union ar ôl y flwyddyn gynllun y sefydlwyd y cyfrif pensiwn ychwanegol ynddi, swm y pensiwn ychwanegol fel y'i pennid yn y cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn gynllun flaenorol; a

(b) yn achos unrhyw flwyddyn gynllun ddilynol, cyfanswm y symiau canlynol—

(i) balans agoriadol y pensiwn ychwanegol am y flwyddyn gynllun flaenorol,

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(ii) yr addasiad mynegai DPC (os oes un) ar gyfer y balans agoriadol hwnnw,

(iii) os yw'n gymwys, yr ychwanegiad oedran a ddyfarnwyd ar ddechrau'r flwyddyn gynllun flaenorol, a

(iv) swm y pensiwn ychwanegol am y flwyddyn gynllun flaenorol fel y'i pennid ar ddiwedd y flwyddyn gynllun flaenorol.

**Cau a throsglwyddo cyfrif pensiwn ychwanegol**

**50.**—(1) Os oes gan aelod actif (P) gyfrif pensiwn ychwanegol, rhaid i'r cyfrif pensiwn ychwanegol barhau ar agor—

(a) hyd nes bo P wedi hawlio pensiwn ymddeol a swm y pensiwn ychwanegol wedi ei drosglwyddo i'r cyfrif ymddeol neu'r cyfrif aelod gohiriedig; neu

(b) hyd nes gwneir taliad gwerth trosglwyddiad mewn cysylltiad â hawliau P i'r pensiwn ychwanegol cronedig; neu

(c) pan fo trosglwyddiad o gofnodion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) wedi ei gwblhau.

(2) Pan fo rheolwr cynllun wedi darparu tystysgrif o dan reoliad 155 (gofyniad bod rheolwr cynllun yn darparu tystysgrif) mewn cysylltiad â chyfrif pensiwn ychwanegol, rhaid i'r rheolwr cynllun newydd sefydlu cyfrif pensiwn ychwanegol a throsglwyddo'r cofnodion o'r dystysgrif honno i'r cyfrif hwnnw.

**Pensiwn afiechyd sy'n peidio â bod yn daladwy**

**51.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw—

(a) pensiwn ychwanegol yn daladwy gyda dyfarniad afiechyd; a

(b) y dyfarniad afiechyd yn peidio â bod yn daladwy o dan reoliad 78 (canlyniadau adolygu).

(2) Rhaid i'r cyfrif pensiwn ychwanegol gael ei ailsefydlu a'i gredydu â swm hafal i'r gyfradd flynyddol o bensiwn ychwanegol a dalwyd i'r aelod-bensiynwr yn y flwyddyn gynllun olaf cyn peidio â thalu'r dyfarniad afiechyd i'r aelod.